| **Amcanion Ymgynghorwyr 2024** |
|---|
| 1. I gynghori ar strategaeth fuddsoddi addas, a newidiadau i'r strategaeth, i gyflawni'r enillion buddsoddi gofynnol o fuddsoddiadau'r Gronfa i gefnogi cynnydd tuag at lefel cyllido sefydlog yn y tymor hir. |
| 2. I gyflawni dull buddsoddi sy'n adlewyrchu sefyllfa llif arian y Gronfa, ac esblygiad tebygol, a lleihau'r risg o ddadfuddsoddi gorfodol. |
| 3. I gynghori ar weithredu strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn gost effeithiol fel bo'r angen, gan ystyried datblygiad Partneriaeth Pensiwn Cymru. |
| 4. I sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio gyda rheoliadau a deddfwriaeth pensiwn perthnasol a chanllawiau arweiniol. |
| 5. I ddatblygu polisïau a chredoau'r Pwyllgor, yn cynnwys rhai yn ymwneud a Buddsoddi Cyfrifol. |
| 6. I sicrhau bod y cyngor yn adlewyrchu polisïau a chredoau'r Pwyllgor, yn cynnwys y rhai mewn perthynas ag ystyriaethau Buddsoddi Cyfrifol. |
| 7. I ddarparu cyngor perthnasol ac amserol. Bydd y gwasanaethau'n gymesur ac yn gystadleuol o ran costau o'u cymharu â cyfoedion. Dylai gwasanaethau gadw at gyllidebau y cytunwyd arnynt a bod yn dryloyw, gan restru gwaith ychwanegol gyda ffioedd ymlaen llaw. |
| 8. I gynorthwyo'r Pwyllgor i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion buddsoddi. |
| 9. Datblygu dealltwriaeth y Pwyllgor am risg hinsawdd a ESG. |
| 10. Bydd yr ymgynghorydd buddsoddi yn cydweithio gydag actiwari, rheolwyr asedau, a 'custodian' y Gronfa, yn ogystal â thrydydd partïon eraill gan gynnwys gweithredwr ac ymgynghorwyr y pŵl. |

**Gwrthdaro buddiannau – datgeliad**

Fel rhan o'r adolygiad hwn, hoffem hefyd dynnu eich sylw at sut mae Hymans Robertson LLP yn mynd i'r afael â'r posibilrwydd o wrthdaro buddiannau wrth roi cyngor ar ymarferion dewis rheolwyr. Byddem yn hapus i drafod y datganiad isod gyda chi i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Sylwch fod gan Hymans Robertson LLP a'n cwmnïau grŵp ystod eang o gleientiaid, y mae rhai ohonynt yn rheolwyr cronfa, a all fod yn bartïon yn ein hargymhellion i chi mewn amgylchiadau amrywiol gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddewis rheolwyr, symud arian i neu o rheolwr neu gefnogi cadw neu ddadfuddsoddi gan reolwr. Mae gennym dîm ymchwil sy'n rhoi cyngor ar lunio rhestr fer o reolwyr cronfeydd mewn ymarferion dewis rheolwyr a ffurfio barn ar reolwyr, sydd ar wahân i'n cleient a pherthnasoedd eraill gyda rheolwyr cronfeydd - felly nid ydym yn credu y bydd gwrthdaro a fyddai'n dylanwadu ar y cyngor a roddir.

Mewn rhai achosion, mae gennym drefniadau/cytundebau busnes masnachol gyda chleientiaid o fewn y sector ariannol lle rydym yn darparu gwasanaethau. Mae'r gwasanaethau hyn yn gwbl ar wahân i unrhyw gyngor y gallwn ei ddarparu wrth

argymell cynhyrchion i'n cleientiaid ymgynghorol. Darperir ein hargymhellion o ganlyniad i anghenion cleientiaid ac maent yn seiliedig ar ein hymchwil annibynnol. Lle ceir gwrthdaro canfyddedig neu wrthdaro posibl, gellir darparu argymhellion eraill.